

**PRIFFYRDD, CYMRU****2019 RHIF****DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990****GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TREM ELIDIR, BANGOR, GWYNEDD) 2019***Gwnaed**30 Awst 2019**Yn dod i rym**6 Medi 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrd (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) 2019 a daw i rym ar 6 Medi 2019.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Gwynedd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrd (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) 2019” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

**Cau Priffyrd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2018 o dan y cyfeirnod C17/1118/11/LL, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**HIGHWAYS, WALES****2019 NO.****TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990****THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (TREM ELIDIR, BANGOR, GWYNEDD) ORDER 2019***Made**30 August 2019**Coming into Force**6 September 2019*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** (1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) Order 2019 and it comes into force on 6 September 2019.

(2) In this Order:-

“the Council” (“*y Cyngor*”) means Gwynedd Council;

“the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) Order 2019” which accompanies this Order;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted; and

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

**Stopping Up**

**2.** Subject to articles 3, 4 and 5 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 7 March 2018 under reference number C17/1118/11/LL and described in Schedule 2 to this Order.

(1) 1990 c.8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

## **Y Darpariaethau sy'n Angenreidiol neu'n Hwylus cyn Cau Prifyrdd**

**3.** Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenreidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

## **Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**4.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

## **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddifymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Awst 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

## **Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

**3.** The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;

(b) the development described in Schedule 2 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and

(c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

## **Statutory Undertakers and Providers**

**4.** Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

## **Duration of this Order**

**5.** If the development described in Schedule 2 to this Order has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 August 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n 43.4 o fetrau yn y man hiraf a 4.9 o fetrau yn y man lletaf sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o bwynt i'r dwyrain o Lôn-y-Glyder ac i'r de-orllewin o Drem Elidir, Bangor, Gwynedd.

**ATODLEN 2**  
**Y Datblygiad**

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi adeilad deulawr newydd i ddarparu 8 o fflatiau a mannau parcio yn 4-5 Trem Elidir, Bangor, Gwynedd.

**SCHEDULE 1**  
**Length of highway to be stopped up**  
**(All measurements are approximate)**

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 43.4 metres and a maximum width of 4.9 metres that extends in an easterly direction from a point east of Lon-y-Glyder and south-west of Trem Elidir, Bangor, Gwynedd.

**SCHEDULE 2**  
**The Development**

Demolition of existing building and erection of a new two storey building to provide 8 flats and provision of parking spaces at 4-5 Trem Elidir, Bangor, Gwynedd.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TREM ELIDIR, BANGOR, GWYNEDD) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”) i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau’r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrd (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) 2019 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiâu o’r Gorchymyn a’r plan a adnewyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfa'r Post, 264 Stryd Fawr, Bangor LL57 1NY neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1388551/1.

Caiff unrhyw berson a dramgyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 6 Medi 2019, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar <https://llyw.cymru/gorchymyon-cau>.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

### **ATODLEN 1**

**Y darn o briffordd sydd i’w gau  
(Bras amcan yw pob mesuriad)**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy’n 43.4 o fetrau yn y man hiraf a 4.9 o fetrau yn y man lletaf sy’n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o bwynt i’r dwyrain o Lôn-y-Glyder ac i’r de-orllewin o Drem Elidir, Bangor, Gwynedd.

## **TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

### **THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (TREM ELIDIR, BANGOR, GWYNEDD) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the Act”) to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 2 to this Notice to be carried out.

The Stopping Up of Highways (Trem Elidir, Bangor, Gwynedd) Order 2019 (“the Order”) ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at the Post Office, 264 High Street, Bangor LL57 1NY or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1388551/1.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 6 September 2019 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at <https://gov.wales/stopping-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

### **SCHEDULE 1**

**Length of highway to be stopped up  
(All measurements are approximate)**

An irregular shaped length of highway with a maximum length of 43.4 metres and a maximum width of 4.9 metres that extends in an easterly direction from a point east of Lon-y-Glyder and south-west of Trem Elidir, Bangor, Gwynedd.

**ATODLEN 2**  
**Y Datblygiad**

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi adeilad deulawr newydd i ddarparu 8 o fflatiau a mannau parcio yn 4-5 Trem Elidir, Bangor, Gwynedd yn unol â'r caniatâd cyllunio a roddwyd o dan Ran 3 o'r Ddeddf gan Gyngor Gwynedd ar 7 Mawrth 2018 o dan y cyfeirnod C17/1118/11/LL.

**SCHEDULE 2**  
**The Development**

Demolition of existing building and erection of a new two storey building to provide 8 flats and provision of parking spaces at 4-5 Trem Elidir, Bangor, Gwynedd in accordance with planning permission granted under Part 3 of the Act by Gwynedd Council on 7 March 2018 under reference number C17/1118/11/LL.